| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **BWRDD PENSIWN** |
| DYDDIAD: | **23 EBRILL 2024** |
| TEITL: | **DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r cydweithio wedi bod yn mynd o nerth i nerth ers ei sefydlu yn 2017 ac erbyn hyn, mae 83% o gronfa Gwynedd wedi ei bwlio gyda Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Mae'r perfformiad hyd yn hyn wedi bod yn gymysg mewn amgylchiadau heriol iawn, ac mae nifer o ddatblygiadau ar y gweill ac felly mae'r adroddiad yma'n diweddaru'r Bwrdd.

## 2. Cronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru

**<u>Cronfeydd Ecwiti Byd-Eang</u>**

Sefydlwyd y cronfeydd yma yn Chwefror 2019 a gellir gweld eu perfformiad hyd at 31 Rhagfyr 2023 isod.

**<u>Cronfa Twf Byd-Eang</u>**

Mae hwn yn gronfa Fyd-eang sydd yn cynnwys tri rheolwr sylfaenol gyda Waystone fel y rheolwr buddsoddi.

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| Perfformiad | 6.3 | 13.6 | 10.0 |
| Meincnod | 6.3 | 15.3 | 10.9 |
| **Gwarged enillion** | **0.0** | **-1.7** | **-0.9** |

Mae gan reolwyr y gronfa hon arddulliau gwahanol, gyda Baillie Gifford yn canolbwyntio ar stociau twf, Pzena ar stociau gwerth a Veritas ar stociau o ansawdd. Fel rheol, disgwylir na fydd pob un o'r rheolwyr yn perfformio pob chwarter. Fodd bynnag, mae eu harddulliau gwahanol yn cynnig y posibilrwydd o fwy o sefydlogrwydd o ran enillion dros y tymor hwy ar lefel y gronfa gyfan.

Perfformiodd marchnadoedd ecwiti'n dda yn y pedwerydd chwarter gan greu dychweliadau chwarterol uchaf 2023 o ran GBP. Gwnaeth stociau twf fownsio yn ôl gan yrru perfformiad gwell i Baillie Gifford ac ar y cyfan gwrthdroi tan-berfformiad y chwarter blaenorol. Bu i'r steiliau gwerth dan-berfformio. Perfformiodd Pzena yn well na'r steil gwerth ond roedd yn parhau i fod ar ei hôl hi o ran meincnod y gronfa. Roedd steiliau ansawdd yn cyfateb i'r dychweliadau ar Dwf, fodd bynnag roedd tuedd gwerth Veritas yn dominyddu gan adael dychweliadau'r chwarter ar ei hôl hi o ran y mynegai.

Ers ei sefydlu, mae'r gronfa weithredol hon wedi disgyn y tu ôl i'w meincnod ac felly mae'r Bartneriaeth ar hyn o bryd yn edrych ar opsiynau ar gyfer ailddatblygu'r gronfa hon.

**Cronfa Cyfleoedd Byd-Eang**

Mae hwn yn gronfa Fyd-eang a rhanbarthol gyda Russell Investments fel y rheolwr buddsoddi sydd yn cynnwys wyth rheolwr sylfaenol.

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| Perfformiad | 5.6 | 14.1 | 12.0 |
| Meincnod | 6.3 | 15.3 | 10.9 |
| **Gwarged enillion** | **-0.7** | **-1.2** | **1.1** |

Mae’r gronfa yma wedi ei selio ar ddull cyfunol gyda nifer o steiliau gwahanol (megis gwerth a thwf) sydd yng nghyd- fynd gyda’i gilydd. Er na fydd pob un o'r rheolwyr yn perfformio'n dda dros chwarter penodol, disgwylir i'r dull amrywiol arwain at fwy o sefydlogrwydd o ran enillion dros gyfnodau hwy.

Twf oedd y steil a berfformiodd orau yn ystod y chwarter wedi'i sbarduno gan ddisgwyliadau cryfach fod cyfraddau llog wedi cyrraedd eu huchafbwynt ac y byddant yn cael eu torri yn hanner cyntaf 2024. Er mai twf capiau mawr oedd y perfformiwr gorau o bell, yn gyffredinol fe wnaeth capiau bach a chanolig yn well na chapiau mawr, ac eithrio yn Ewrop. Yn gyffredinol, bu i werth dan-berfformio ac eithr stociau gwerth cap bychan (y steil a berfformiodd orau yn y DU). Yr arddulliau elw difidend uchel ac isafswm ansefydlogrwydd (minimum volatility) oedd y ffactorau a berfformiodd waethaf yn ystod y chwarter. Roedd gogwydd y Gronfa at gapiau bach yn fuddiol, fodd bynnag roedd y dewis stociau'n negyddol. Mewn sectorau, roedd y dewis stociau o fewn diwydiant yn ddiwerth.

Dros y tymor hir, ers ei sefydlu, mae'r gronfa wedi bod yn perfformio'n dda ac yn gyfforddus o flaen ei feincnod.

**Cronfa Ecwiti Cynaliadwy**

Mae Cronfa Ecwiti Cynaliadwy wedi'i lansio ym mis Mehefin 2023, gyda buddsoddiad o £270 miliwn gan Gronfa Bensiwn Gwynedd.

Mae'r is-gronfa hon yn cynnwys pum rheolwr buddsoddi sylfaenol a Russell Investments fel y rheolwr buddsoddi.

| | Tri Mis | Ers Cychwyn |
|---|---|---|
| Perfformiad | 6.6 | 6.5 |
| Meincnod | 6.3 | 9.1 |
| **Gwarged enillion** | **0.3** | **-2.6** |

Yn groes i'r cyfnod blaenorol, cododd marchnadoedd ecwiti i beri'r perfformiad chwarterol gorau ers pedwerydd chwarter 2020. Gwelodd pob sector gynnydd dros y chwarter, ac eithrio ynni, a oedd yn dioddef yn sgil prisiau olew'n gostwng mewn marchnad anwadal, ac eiddo tiriog a oedd yn fflat. O fewn yr amgylchedd marchnad hwn, roedd tanbwysau'r Gronfa i ynni

yn fanteisiol. Roedd y dewis o fewn cyllidol hefyd yn gadarnhaol. Fodd bynnag, roedd y dewis yn nhechnoleg yn tynnu oddi ar y gronfa

**Cronfeydd Incwm Sefydlog**

Lansiodd y Bartneriaeth bum is- gronfa incwm sefydlog yng Ngorffennaf a Medi 2020 ac mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi ers y cychwyn mewn dau ohonynt: Cronfa Gredyd Aml-ased a Chronfa Enillion Bond Absoliwt. Yn ddiweddar, mae'r Gronfa wedi buddsoddi mewn un arall fel rhan o'r broses o symud i'r dyraniad asedau strategol newydd: Cronfa Credyd Byd- Eang.

**Cronfa Gredyd Aml- ased**

Mae gan y gronfa bum rheolwr buddsoddi sylfaenol gyda Russell Investments fel y rheolwr buddsoddi. Mae'r perfformiad wedi bod fel a ganlyn hyd at 31 Rhagfyr 2023:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| Perfformiad | 5.9 | 12.1 | 2.1 |
| Targed | 2.3 | 9.0 | 5.9 |
| **Gwarged enillion** | **3.6** | **3.1** | **-3.8** |

Fel yn y ddau chwarter diwethaf, bu i gredyd enillion uchel berfformio'n well na'r raddfa fuddsoddi. O fis Tachwedd daeth buddsoddwyr yn gynyddol gyfforddus i gymryd mwy o risg, wedi'u sbarduno gan y gred y bydd y Fed. yn llwyddo i gael 'soft landing' i economi UDA ac yn gweithredu toriadau cyfraddau llog yn hanner cyntaf 2024. Yn yr amgylchedd hwn, roedd y Gronfa'n perfformio'n well na'i ddychweliad targed. Cyfrannydd allweddol i ddychweliadau oedd amlygiad gorbwysiad RBC i gredyd Ewropeaidd, yn enwedig cyllidau enillion uchel. Roedd Barings hefyd wedi cyfrannu at y perfformiad. Roedd ei safle yng nghredyd yr UD yn fuddiol gyda gorbwysiad i gyllidau a diwydiannau graddfa fuddsoddi yn cyfrannu'n gadarnhaol.

**Cronfa Enillion Bond Absoliwt**

Mae gan y gronfa bedwar rheolwr buddsoddi sylfaenol a Russell Investments yw'r rheolwr buddsoddi. Mae'r perfformiad wedi bod fel a ganlyn hyd at 31 Rhagfyr 2023:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| Perfformiad | 1.2 | 5.8 | 3.1 |
| Targed | 1.8 | 6.9 | 3.9 |
| **Gwarged enillion** | **-0.6** | **-1.1** | **-0.8** |

Cofnododd y Gronfa ddychweliad cadarnhaol ar gyfer y chwarter. Roedd Insight yn un o brif yrwyr y dychweliadau gyda'i amlygiad i barhad, oedd yn brif gyfrannwr at berfformiad cadarnhaol, wedi'i yrru gan sefyllfa barhad hir yn nhrysorlysoedd yr UD a sefyllfa parhad byr yn y DU ac yng Nghorea. Roedd Wellington yn rhwystr i berfformiad. Yn groes i'r chwarter

blaenorol, lleihaodd strategaethau macro'r chwarter hwn. Ni wnaeth amlygiad Wellington i barhad yn Siapan, y DU ac Awstralia weddu i amgylchedd y farchnad.

**Cronfa Credyd Byd Eang**

Mae gan y gronfa hon bedwar rheolwr sylfaenol a Russell Investments yw'r rheolwr buddsoddi. Roedd y perfformiad hyd at 31 Rhagfyr 2023 fel a ganlyn:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| Performance | 7.0 | 6.7 | -2.6 |
| Target | 7.0 | 7.6 | -2.5 |
| **Gwarged enillion** | **0.0** | **-0.9** | **-0.1** |

Fe wnaeth gorbwysiad y Gronfa i enillion uchel Ewropeaidd a chredyd graddfa buddsoddi cyllidol a diwydiannol gyfrannu'n gadarnhaol. Roedd gorbwysiad i ddyled enillion uchel y DU hefyd yn gymorth. O ran credyd UDA, er bod gorwbysiad i ddiwydiannau enillion uchel yr UD yn effeithiol, cafodd hyn ei wrthbwyso gan danbwysiad i gyllidau enillion uchel a oedd yn lleihau. Lleihaodd tanbwysiad i raddfa fuddsoddi UDA oherwydd tanbwysiad mewn cyfleustodau a diwydiannau, a oedd yn pwyso ar ddychweliadau. Mewn dyledion marchnadoedd datblygol arian caled, bu tanbwysau i gredyd graddfa fuddsoddi yn Ewrop, y Dwyrain Canol ac America Ladin yn aneffeithiol. Mewn mannau eraill, bu i danbwysau i ddyled sofren Sbaeneg fod yn niweidiol.

**Cronfa Marchnadoedd Datblygol**

Mae gan y gronfa hon chwe rheolwr sylfaenol a Russell Investments fel y rheolwr buddsoddi. Roedd y perfformiad hyd at 31 Rhagfyr 2023 fel a ganlyn:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| Perfformiad | 2.6 | 3.1 | -4.8 |
| Meincnod | 3.3 | 3.6 | -4.5 |
| **Gwarged enillion** | **-0.7** | **-0.5** | **-0.3** |

Ansawdd oedd y ffactor amlycaf yn y pedwerydd chwarter. Perfformiodd gwerth ychydig yn well na thwf gyda llai o wasgariad o gymharu â marchnadoedd datblygedig. Yn y cyfamser, bu i stociau cap bychan a chanolig ymestyn eu perfformiad gwell yn 2023 i stociau cap mawr. Momentwm ac ansefydlogrwydd isel oedd y ffactorau a berfformiodd wanaf. Bu i amlygiad cadarnhaol y Gronfa i dwf bwyso ychydig ar berfformiad perthnasol. Roedd y dewis stociau yn Tseina mewn sectorau sy'n canolbwyntio ar anghenion y cwsmer yn dynnwr allweddol. Roedd lleoli a dewis yng Ngwlad Thai (gorbwyso) a De Affrica (tanbwyso) hefyd yn negyddol. Fodd bynnag, roedd gorbwysiad i Frasil yn addas i amgylchedd y farchnad. Roedd y dewis stociau yn Taiwan (enwau lled-ddargludwyr) hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol.

## 3. Datblygiadau

### 3.1 Marchnadoedd Preifat

Mae’r gwaith marchnadoedd preifat yn datblygu yn dda gyda’r dyranwyr canlynol wedi ei penodi, gyda’r cronfeydd rŵan yn weithredol:

***Dyled Preifat: Russell Investments***

***Isadeiledd caeedig: GCM Grosvenor***

***Isadeiledd penagored: Cronfa Isadeiledd Byd-eang CBRE, Cronfa Isadeiledd Byd-eang IFM ac Isadeiledd Ynni Adnewyddadwy Octopws SCsp.***

***Ecwiti preifat: Schroders***

***Eiddo****:* Mae'r broses caffael ar gyfer rheolwyr Eiddo yn datblygu yn dda. Cyhoeddwyd y Gwahoddiad i Dendro 19 Ionawr 2024, derbyniwyd ymatebion ac maent yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd. Disgwylir i'r adroddiad argymhelliad fynd i’r CBLl yng Ngorffennaf 2024 i'w gymeradwyo, gyda'r contract yn cael ei ddyfarnu ym mis Awst.

### 3.2 Diweddariad Gweithredwr

Daw'r contract Gweithredwr presennol gyda Waystone Management (UK) Ltd i ben ym mis Rhagfyr 2024. Mae proses dendro agored wedi'i chynnal ac mae'r broses werthuso bellach wedi'i chwblhau. Ar ôl cwblhau'r broses werthuso, cyflwynwyd adroddiad argymhelliad cynigydd a ffefrir i'r CBLl.

Cymeradwywyd y cynigydd a argymhellir gan y CBLl, ac mae'r adroddiad bellach wedi'i anfon at bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol i'w gymeradwyo yn ysgrifenedig. Mae’r argymhelliad hyn wedi ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 19 Mawrth 2024.

### 3.3 Pleidleisio ac Ymgysylltu

Ym mis Mawrth 2020, penodwyd Robeco yn Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC i ymgymryd â swyddogaethau Pleidleisio ac Ymgysylltu ar ran y bartneriaeth. Dechreuodd Robeco eu gwasanaeth ymgysylltu ym mis Ebrill 2020, ac maent yn darparu diweddariadau chwarterol i'r Cydbwyllgor Llywodraethu. Dewisir thema ymgysylltu bob chwarter ac esbonnir hyn i'r Cydbwyllgor e.e. y thema ar gyfer y chwarter hwn oedd Tâl Gweithredol Gyfrifol.

Mae'n amlwg, pan fydd cwmnïau'n ymgysylltu'n wael, ei bod yn anodd gweithredu ac felly mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wrthi'n llunio polisi uwchgyfeirio fel y gellir mynd i'r afael â hyn.

## 4. Argymhelliad

Gofynnir i’r Bwrdd nodi’r wybodaeth.